# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 21 Mehefin 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
9 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanethau Cymdeithasol

### Cleifion MS

**C5 Jane Davidson:** Yn dilyn diwrnod gweithredu Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y Gymdeithas Sglerosis Ymledol, sut mae'r Cynulliad yn bwriadu sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i anghenion cleifion ag arnynt Sglerosis Ymledol? (OAQ5846)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Yr oeddwn yn falch o fod wedi gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod brecwast y Gymdeithas Sglerosis Ymledol ar ei Diwrnod Gweithredu diweddar. Creodd y Ddeddf Iechyd 1999 gyfleoedd newydd i fudiadau gwirfoddol fel y Gymdeithas Sglerosis Ymledol ac i'r cyhoedd gael cysylltiad pellach â chynllunio a darparu gwasanaethau i ardaloedd lleol. Bydd partneriaeth sector gwirfoddol y Cynulliad yn darparu llwybr arall hefyd.

### Pwysigrwydd Trefn Asesu Pobl ag Anawsterau Dysgu

**C6 Cynog Dafis:** A yw Jane Hutt wedi rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ynghylch pwysigrwydd y drefn asesu i bobl ag anawsterau dysgu a'u cynhalwyr? (OAQ5931)

**Jane Hutt:** Ni chyhoeddwyd cyfarwyddyd penodol yn ddiweddar ynghylch asesu pobl ag anableddau dysgu neu eu gofalwyr.

Mae strategaeth anabledd dysgu'r Cynulliad yn dynodi rhestr gynhwysfawr o faterion y dylai awdurdodau lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu pobl ag anableddau dysgu.

Mae gan ofalwyr hawl i gael asesiad o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995. Mae'r Mesur Gofalwyr a Phlant Anabl yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n darparu hawl newydd i gael asesiad gofalwr mewn amgylchiadau lle y mae'r un y mae'n gofalu amdano wedi gwrthod asesiad gofal cymunedol. Bydd y Mesur hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau rhagnodedig yn uniongyrchol i'r gofalwr.

Yn ddiweddarach eleni, bydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn adolygu'r cyfarwyddyd presennol a'r arfer gorau mewn perthynas ag asesiadau gofal cymunedol a rheolaeth gofal ar gyfer yr holl oedolion sydd yn agored i niwed a'u gofalwyr.

### Gwella Darpariaeth Addysgol i Bobl ag Anableddau Dysgu

**C7 Helen Mary Jones:** A oes gan Jane Hutt gynlluniau i wella'r ddarpariaeth addysgol i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru? (OAQ5916)

**Jane Hutt:** Mae materion addysg yn rhai ar gyfer Rosemary Butler a Tom Middlehurst. Trafododd y Cynulliad adroddiad y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ar fwrw ymlaen â'r argymhellion yn y

cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant ar 1 Chwefror. Ategodd bwysigrwydd y cyfleoedd addysg a hyfforddiant a geir am fod gweithrediad y cynllun yn agored i bawb gan gynnwys rhai ag anableddau ac anawsterau dysgu. Mae rhaglenni fel Dysgu yn Seiliedig ar Waith i Oedolion, Hyfforddiant i Bobl Ifanc a'r Fargen Newydd eisoes yn darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i rai ag anableddau dysgu.

**Aros am Lawdriniaeth**

**C8 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau a gafodd Jane Hutt ynghylch sicrhau na fydd neb yng Nghymru'n aros mwy na 18 mis am lawdriniaeth? (OAQ5845)

**Jane Hutt:** Cefais gyfres o drafodaethau'n ddiweddar â'r holl gymunedau iechyd yng Nghymru a chytuno ar dargedau ymestynnol, gan gynnwys dileu arosiadau o dros 12 mis ar gyfer triniaeth claf mewnol ac achos dydd yn y rhan fwyaf o achosion erbyn diwedd Mehefin 2001.

Oherwydd problemau penodol o ran nifer y gwelyau mewn orthopedeg, gofynnais i'r awdurdodau iechyd ddatblygu rhagenni tymor hwy i ddelio â rhestrau aros ac amseroedd aros hir yn yr arbenigedd hwn.

Yr wyf wedi darparu dros £40 miliwn ar gyfer ymrwymiadau penodol a chytunedig gan bob cymuned iechyd i fynd i'r afael â rhestrau aros, amseroedd aros a phwysau argyfwng annerbyniol.

Er mwyn sicrhau y gellir cynnal y gwelliannau cynlluniedig hyn, yr wyf wedi darparu £35 miliwn o'r cyllid yn rheolaidd. Yr wyf hefyd wedi sefydlu rhaglen 'cyfnewidiadau mewn gofal' a ariannir yn ganolog a fydd yn cynorthwyo cymunedau iechyd wrth foderneiddio a thrawsnewid y modd y cyflenwir gofal dewisol yng Nghymru.

**Cyllid Ychwanegol i Grwpiau Iechyd Lleol**

**C9 Peter Black:** Pa ddarpariaeth a wnaethpwyd gan Jane Hutt i weithredu penderfyniad y Cynulliad ar 11 Ebrill 2000 i ddyrannu cyllid ychwanegol i grwpiau iechyd lleol i fynd i'r afael â phroblem oedi cyn rhyddhau pobl o'r ysbyty? (OAQ5945)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi darparu dros £40 miliwn yn ddiweddar i gymunedau iechyd yng Nghymru i fynd i'r afael â rhestrau aros, amseroedd aros a phwysau argyfwng annerbyniol. Mae ymdrin â phroblem rhyddhau gohiriedig o ysbytai wedi ei gynnwys yn y targedau y cytunodd yr awdurdodau iechyd arnynt.

Yr wyf wedi cytuno'n benodol â'r awdurdodau iechyd y bydd yn rhaid wrth fwy o weithio ar y cyd oddi mewn i'r NHS a chyda chyrff eraill, yn enwedig llywodraeth leol, er mwyn mynd i'r afael â phwysau gaeaf/argyfwng. Disgwyliaf i awdurdodau iechyd a'u grwpiau iechyd lleol cyfansoddol gytuno ar gynlluniau lleol ar y cyd ag ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad â'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol, er mwyn lleihau'r rhyddhau gohiriedig ar sail gynaliadwy. Bydd y cyllid yn gysylltiedig â chynlluniau cytunedig ar y cyd sydd â'r amcan o wneud cyfraniadau lleol priodol at leihau'r rhyddhau gohiriedig o un rhan o dair ledled Cymru yn 2000-01.

**Goblygiadau Iechyd Bwyd wedi'i Addasu'n Enetig**

**C10 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad byr ar oblygiadau iechyd bwyd wedi'i addasu'n enetig? (OAQ5930)

**Jane Hutt:** Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar oblygiadau bwydydd newydd i ddiogelwch bwyd. Asesir pob cais i farchnata bwydydd newydd yn drwyadl er mwyn diogelwch. Bydd yr asiantaeth yn sicrhau yr amddiffynnir iechyd cyhoeddus o hyd drwy gymhwyso dull gweithredu sydd yn seiliedig ar wyddoniaeth at reoli bwyd a addaswyd yn enetig.

**Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty (Cyllid i Grwpiau Iechyd Lleol)**

**C11 Mick Bates:** Pa drafodaethau mae Jane Hutt wedi eu cael ynghylch dyrannu cyllid ychwanegol i grwpiau iechyd lleol er mwyn mynd i'r afael â'r oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty o ganlyniad i benderfyniad y Cynulliad ar 11 Ebrill 2000? (OAQ5853)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi darparu dros £40 miliwn yn ddiweddar i gymunedau iechyd yng Nghymru i fynd i'r afael â rhestrau aros, amseroedd aros a phwysau argyfwng annerbyniol. Mae ymdrin â phroblem rhyddhau gohiriedig o ysbytai wedi ei gynnwys yn y targedau y cytunodd yr awdurdodau iechyd arnynt.

Yr wyf wedi cytuno'n benodol â'r awdurdodau iechyd y bydd yn rhaid wrth fwy o weithio ar y cyd oddi mewn i'r NHS a chyda chyrff eraill, yn enwedig llywodraeth leol, er mwyn mynd i'r afael â phwysau gaeaf/argyfwng. Disgwyliaf i awdurdodau iechyd a'u grwpiau iechyd lleol cyfansoddol gytuno ar gynlluniau lleol ar y cyd ag ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad â'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol, er mwyn lleihau'r rhyddhau gohiriedig ar sail gynaliadwy. Bydd y cyllid yn gysylltiedig â chynlluniau cytunedig ar y cyd sydd â'r amcan o wneud cyfraniadau lleol priodol at leihau'r rhyddhau gohiriedig o un rhan o dair ledled Cymru yn 2000-01.

### Fframwaith Rheoleiddio Cyffredin i Sefydliadau sydd yn Cynnig Gofal Plant

**C12 Richard Edwards:** A oes gan Jane Hutt gynlluniau i sefydliadau sydd yn cynnig gofal plant fod yn destun fframwaith rheoleiddio cyffredin? (OAQ5950)

**Jane Hutt:** Bydd y trefniadau newydd sydd i'w cyflwyno o dan y Mesur Safonau Gofal sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn mynnu y bydd darparwyr gofal plant nad ydynt yn agored i'w rheoleiddio ar hyn o bryd yn cofrestru ac yn cael eu harchwilio. Mae hyn yn cynnwys cartrefi plant bach ar gyfer pedwar neu lai o blant ac asiantaethau maethu annibynnol. Parheir i reoleiddio cartrefi plant ar gyfer mwy na phedwar, a darparwyr gofal dydd a gwarchodaeth plant.

Bydd y fframwaith rheoleiddiol newydd yn cyflwyno, am y tro cyntaf, safonau gofynnol cenedlaethol fel sail ar gyfer cofrestru. Yn y cyfamser, cyn sefydlu'r Arolygiaeth Safonau Gofal newydd i Gymru, bydd y Cynulliad yn penderfynu trefniadau trosiannol mewn perthynas â chartrefi plant bach.

Bydd y trefniadau newydd yn darparu fframwaith rheoleiddiol cyffredin ar gyfer yr holl ddarparwyr ac yn gwella amddiffyniad i blant.

### Ymgyrch Hysbysebu Rhoi'r Gorau i Ysmygu

**C13 Pauline Jarman:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad byr ar gynnydd yr ymgyrch hysbysebu rhoi'r gorau i ysmygu? (OAQ5934)

**Jane Hutt:** Mae'r ymgyrch hysbysebu rhoi'r gorau i ysmygu'n rhan o becyn o fesurau a ddyfeisiwyd er mwyn helpu ysmygwyr yng Nghymru i roi'r gorau iddo. Cynhaliwyd ymgyrch beilot a oedd yn cynnwys cynghorion a geiriau o brofiad gan rai a lwyddodd i roi'r gorau iddo ar HTV Wales ac S4C o ganol Chwefror hyd ganol Mawrth eleni. Canfu ymchwil a gomisiynwyd gan y Cynulliad drwy arolwg omnibws Cymru fod 58 y cant o'r ymatebwyr yn cofio gweld yr hysbysebion, sydd yn lefel atgofio galonogol ar gyfer ymgyrch o'r math hwn.

Yr oedd yr hysbysebion teledu'n annog ysmygwyr sydd yn dymuno rhoi'r gorau iddo i alw rhif ffôn llinell gymorth rhadffon er mwyn cael cyngor, deunydd darllen neu gynghori manylach ynghylch y modd i roi'r gorau i ysmygu. Cysylltodd dros 2,500 o bobl o Gymru â'r llinell gymorth yn ystod cyfnod yr ymgyrch.

Cyflawnwyd ymchwil hefyd i asesu pa agweddau ar yr ymgyrch hysbysebu a weithiodd orau. Bydd y canfyddiadau hyn yn helpu i lunio'r ymgyrch ar gyfer y flwyddyn hon, a fydd yn cynnwys rhif ffôn llinell gymorth rhadffon ar hyd y flwyddyn.

## Targedau Iechyd 'Gwellcymru.com'

**C14 David Melding:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar y targedau iechyd a nodwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ5861)

**Jane Hutt:** Gwell iechyd a lles yw un o'r pum maes allweddol a ddynodir yn 'Gwellcymru.com' er mwyn cyflenwi gweledigaeth gyffredinol y Cynulliad, a dyfeisiwyd y targedau iechyd er mwyn canolbwyntio sylw a gweithredu ar y prif flaenoriaethau. Mae angen cadw golwg ar y targedau yng ngoleuni'r cynnydd cyflymach sydd yn bosibl oherwydd y cyhoeddiadau diweddar am godiadau sylweddol mewn gwariant iechyd.

## Ffigurau Amseroedd Aros

**C15 Christine Humphreys:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar y ffigurau diweddaraf ar gyfer amseroedd aros? (OAQ5841)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, cyhoeddir gwybodaeth ar amseroedd aros yn nhablau perfformiad blynyddol NHS Cymru. Mae'r cyfartaledd cyfredol i Gymru (1999) yn dangos bod 95 y cant o'r cleifion wedi eu derbyn i ysbyty ar gyfer triniaeth o fewn 12 mis a chafodd 91 y cant o'r cleifion apwyntiad cyntaf fel claf allanol o fewn chwe mis.

Yr wyf wedi darparu dros £40 miliwn eleni i gwtogi'r cyfnod amser y mae cleifion yn gorfod ei ddisgwyl am apwyntiadau claf allanol a chlaf mewnol. Yn ystod y flwyddyn yr wyf wedi cytuno ag awdurdodau iechyd y byddant yn lleihau'r rhestrau aros i gleifion mewnol ac achosion dydd drwy Gymru gyfan o tua 15,000; yn dileu arosiadau o dros 12 mis am driniaeth claf mewnol ac achos dydd erbyn diwedd Mehefin 2001 yn y rhan fwyaf o achosion ac yn lleihau'n sylweddol nifer y cleifion sydd yn aros mwy na chwe mis am apwyntiad claf allanol cyntaf.

Yr wyf yn ategu hyn drwy'r rhaglen 'cyfnewidiadau mewn gofal' a ariannir yn ganolog a sefydlais yn ddiweddar er mwyn cynorthwyo cymunedau iechyd wrth foderneiddio a thrawsnewid y modd y cyflenwir gofal dewisol yng Nghymru.

## Cynllun Strategol Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru

**C16 Gareth Jones:** A yw Jane Hutt wedi derbyn copi o gynllun strategol Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru? (OAQ5935)

**Jane Hutt:** Derbyniwyd Rhaglen Gwella Iechyd Gogledd Cymru gan y Cynulliad ddiwedd Ebrill. Darperir yr wybodaeth ddiweddaraf ar raglenni gwella iechyd ledled Cymru i aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 5 Gorffennaf.

## Lleihau Rhestrau Aros

**C17 Jonathan Morgan:** Beth yw polisi'r weinyddiaeth ar leihau rhestrau aros? (OAQ5859)

**Jane Hutt:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i leihau rhestrau aros ac amseroedd aros ar draws NHS Cymru. Ym Mai, darperais dros £40 miliwn i awdurdodau iechyd er mwyn mynd i'r afael ag amseroedd aros annerbyniol o hir a phwysau argyfwng ar yr NHS a gosodais dargedau ymestynnol i bob un o'r cymunedau iechyd yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn hon.

Mae 'Gwellcymru.com' yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno dull tecach a mwy tryloyw ar sail glinigol o reoli cleifion sydd yn aros am driniaeth mewn ysbyty. Bydd y gr^wp datblygu strategaeth amseroedd aros yn adrodd yng Ngorffennaf a bydd ei ganfyddiadau a'i gasgliadau'n paratoi'r ffordd ar gyfer dull gweithredu tymor canolig a fydd yn seiliedig ar hyd yr amser y mae cleifion yn gorfod disgwyl a'u blaenoriaeth glinigol.

**Ailddiffinio Gofal Nyrsio a Gofal Personol yng Nghymru**

**C18 Jocelyn Davies:** A oes gan Jane Hutt gynlluniau i ailddiffinio gofal nyrsio a gofal personol yng Nghymru? (OAQ5925)

**Jane Hutt:** Mae hyn yn fater y byddaf yn ei ystyried yng nghyd-destun ymateb y Llywodraeth i'r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir.

**Bwyd wedi'i Addasu'n Enetig**

**C19 Nick Bourne:** Pa sicrwydd fydd Jane Hutt yn ei geisio er mwyn sicrhau na fydd bwyd wedi'i addasu'n enetig yn niweidio ein hiechyd? (OAQ5951)

**Jane Hutt:** Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion diogelwch bwyd gan gynnwys rheoleiddio bwydydd a addaswyd yn enetig.

Cyn cymeradwyo gwerthu bwydydd a addaswyd yn enetig yn yr Undeb Ewropeaidd, rhaid eu hasesu'n drwyadl er mwyn diogelwch yn unol â gofynion Rheoliad Bwydydd Newydd y Gymuned Ewropeaidd (258/97).

Yn y DU, cyflawnir yr asesu o fwydydd newydd gan y Pwyllgor Ymgynghorol annibynnol ar Fwydydd a Phrosesau Newydd.

Yr wyf yn fodlon nad yw bwydydd a addaswyd yn enetig sydd ar y farchnad yn yr UE yn golygu perygl i iechyd cyhoeddus.

**Bwriad i Gau Adain Orllewinol Ysbyty Frenhinol Caerdydd**

**C20 Jenny Randerson:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ynghylch y bwriad i gau adain orllewinol Ysbyty Frenhinol Caerdydd, gan golli 80 yn rhagor o welyau, a'r effaith a gaiff hyn ar restrau aros a derbyniadau meddygol brys? (OAQ5865)

**Jane Hutt:** Mater i Awdurdod Iechyd Bro Taf yw asesu angen iechyd lleol a, gan weithio gyda'r ymddiriedolaethau NHS, grwpiau iechyd lleol, y sector gwirfoddol ac eraill, cynllunio a blaenoriaethu ei wasanaethau iechyd i gyflawni'r angen hwnnw oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael.

Deallaf fod Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro wrthi ar hyn o bryd yn datblygu strategaeth ar gyfer y cwbl o'i gwasanaethau clinigol a bod Awdurdod Iechyd Bro Taf, yn gyfochrog â hynny, yn gweithio gyda gr^wp iechyd lleol Caerdydd i ddatblygu strategaeth ar gyfer gwasanaethau yn nwyrain Caerdydd, gan gynnwys ystyriaeth i rôl adain orllewinol Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Byddai unrhyw gynigion o ganlyniad i hynny sydd yn golygu newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau yn ddarostyngedig i gyfnod o ymgynghori cyhoeddus ffurfiol a hyd nes y bydd cynigion o'r fath yn hysbys, amhriodol fyddai dyfalu ynghylch yr hyn y gallent ei olygu.

**Hylendid mewn Ysbytai**

**C21 Janet Davies:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad byr ar yr angen am safonau derbyniol o ran hylendid mewn ysbytai? (OAQ5922)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb ymddiriedolaethau NHS yw sicrhau bod cyfleusterau ac offer yn lân ac yn lanwaith, a'u lle hwy yw penderfynu ar y modd gorau i gyflawni hynny.

Mae'r Cynulliad, drwy'r Prif Swyddog Meddygol, wedi ariannu rhywfaint o ymchwil ragarweiniol i lanhau ysbytai yng Nghymru. Mae canlyniadau'r ymchwil hon o dan ystyriaeth ar hyn o bryd gan Bwyllgor Rheoli Haint Ysbytai Cymru a chan gyfarwyddwyr meddygol yr awdurdodau iechyd.

Mae fframwaith strategol y Cynulliad ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth ac ymweliadau iechyd yng Nghymru yn ymdrin â mater yr amgylchedd ac mae hyn yn cynnwys yr angen i nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd fod yn gydlynwyr yr amgylchedd gofal—sydd yn cynnwys yr amgylchedd ffisegol.

**Gofal Clefyd Siwgr yng Nghymru**

**C22 Christine Chapman:** Pa asesiad a wnaethpwyd gan Jane Hutt o safon gofal clefyd siwgr yng Nghymru? (OAQ5948)

**Jane Hutt:** Canfu adroddiad y Comisiwn Archwilio, 'Testing Times: a review of diabetes services in England and Wales', a gyhoeddwyd yn Ebrill eleni, er bod enghreifftiau o arfer da, fod y gwasanaethau'n amrywiol.

Mae fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd siwgr yn cael ei ddatblygu gan yr Adran Iechyd. Mae wedi sefydlu gweithgor arbenigol a gweithgorau pwnc llai, sydd yn cynnwys cynrychiolaeth o Gymru, er mwyn datblygu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol. Y nod yw hybu ansawdd a lleihau amrywiadau annerbyniol yn y gwasanaeth. Mae swyddogion o'r Cynulliad mewn cysylltiad agos â'r gwaith hwn gyda golwg ar roi safonau tebyg ar waith yng Nghymru. Disgwylir y bydd y gr^wp cyfeirio arbenigol sydd yn cynhyrchu'r fframwaith yn adrodd i Weinidogion yr Adran Iechyd yn gynnar yn 2001.

**Llawdriniaeth y Galon (Canol De Cymru)**

**C23 Owen John Thomas:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar restrau aros am lawdriniaeth y galon yn ardal Canol De Cymru? (OAQ5946)

**Jane Hutt:** Ddiwedd Ebrill 2000, yr oedd 191 o drigolion Awdurdod Iechyd Bro Taf yn disgwyl am lawdriniaeth y galon—gostyngiad o 17 y cant o'i gymharu ag Ebrill 1999.

Yn 2000-01, derbyniodd awdurdodau iechyd Cymru ddyraniad o £2.2 biliwn. Mae hyn yn gynnydd ariannol cyffredinol o £196 miliwn (9.4 y cant mewn termau ariannol neu 7.15 y cant mewn termau gwirioneddol) oddi ar 1999-2000. O hynny, dyfarnwyd £567 miliwn i Awdurdod Iechyd Bro Taf—cynnydd o £52.7 miliwn oddi ar 1999-2000.

Ymgymerir â chomisiynu llawdriniaeth y galon gan y Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ran pum awdurdod iechyd Cymru. Gan wybod bod cleifion yn disgwyl cyfnodau annerbyniol o hir am lawdriniaeth, trefnodd y Comisiwn y llynedd i 133 o gleifion yn ne Cymru a fu'n aros hwyaf, dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Hammersmith.

Ar gyfer eleni, mae'r Comisiwn yn ymchwilio i'r cyfle i gynyddu nifer y gwelyau yn y ddwy ganolfan yn ne Cymru yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Athrofaol Cymru ac i atgyfeirio cleifion hefyd i ganolfannau arbenigol yn Lloegr.

Ar gyfer y tymor hir, mae'r Comisiwn wedi adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau cardïaidd arbenigol i oedolion yng Nghymru ac wedi dynodi'r angen am fuddsoddi sylweddol. Gan gydnabod yr angen hwn, yr wyf eisoes wedi darparu £1.5 miliwn yn ychwanegol i helpu i liniaru'r pwysau mwyaf difrifol ar y gwasanaethau hyn yn ystod 2000-01 ac wedi gofyn i'r awdurdodau iechyd roi blaenoriaeth i wasanaethau cardïaidd yn y rhaglenni buddsoddi a gyflwynir ar gyfer cyllid yn 2000-01.

**Papur Ymgynghori 'Cymunedau'n Gyntaf'**

**C24 Cynog Dafis:** A yw Jane Hutt wedi cyfrannu at ddatblygu'r papur ymgynghori 'Cymunedau'n Gyntaf'? (OAQ5910)

**Jane Hutt:** Yr oedd gennyf ran mewn trafodaethau ar gynnwys y papur ymgynghori a chymeradwyais y fersiwn terfynol. Yr oedd y polisi wedi ei gytuno cyn hynny gan y Cabinet.

**Ymestyn Cyfnod Cofrestru ar gyfer Deintddiaeth yng Nghymru**

**C25 Elin Jones:** A yw Jane Hutt yn bwriadu ymestyn y cyfnod cofrestru 15 mis ar gyfer deintyddiaeth yng Nghymru? (OAQ5938)

**Jane Hutt:** Er y gallai'r Cynulliad fod â ph^wer i ymestyn y cyfnod cofrestru, nid oes bwriad i wneud hynny ar hyn o bryd. Byddai newid o'r fath yn gofyn cyllid ychwanegol neu ostyngiad yn y raddfa taliadau deintyddol er mwyn gwneud iawn am y gwariant ychwanegol sydd yn gysylltiedig.

Telir tâl misol rheolaidd bach i ddeintyddion am bob claf a gofrestrir â hwy ond nid yw'r claf yn cyfrannu at y taliadau hyn. Cytunwyd i gwtogi'r cyfnod cofrestru gyda'r proffesiwn deintyddol fel rhan o'r pecyn o ddiwygiadau deintyddol a gyhoeddwyd ym Mehefin 1996. Bellach canolbwyntir taliadau i ddeintyddion ar y cleifion hynny sydd yn derbyn gofal gweithredol ganddynt ac ailaddosbarthwyd yr arbedion a gafwyd o ganlyniad i ddeintyddion drwy eu targedu ar ffurf

- taliadau gofal parhaol misol uwch ar gyfer yr holl oedolion a gofrestrwyd;
- cynnydd ychwanegol mewn taliadau gofal parhaol ar gyfer cleifion cofrestredig dros 65;
- ffioedd uwch am archwiliadau, dannedd gosod resin a thriniaeth endodontig;
- taliadau misol uwch ar gyfer plant cofrestredig o dan bump sydd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Bwriad y cysyniad o 'gofrestru' gyda deintydd ar gyfer gofal parhaol yw hybu cysylltiadau tymor hir rhwng deintyddion unigol a'u cleifion ac annog cleifion hefyd i dderbyn y ffaith bod iechyd geneuol yn rhywbeth sydd yn gofyn gofal rheolaidd. Caiff cofrestriadau eu 'treiglo ymlaen' am 15 mis pellach bob tro y mae cleifion yn gweld eu dentyddion ac, ar yr amod eu bod yn gweld eu deintydd o leiaf unwaith bob 15 mis ni fydd eu cofrestriadau'n pallu.

**Diogelu Staff Ysbytai rhag Trais a Chamdriniaeth**

**C26 Peter Black:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i ddiogelu staff ysbytai rhag trais a chamdriniaeth yn y gwaith? (OAQ5944)

**Jane Hutt:** Mae'r strategaeth adnoddau dynol i Gymru, 'Darparu ar gyfer Cleifion', y byddaf yn ei lansio ar 23 Mehefin, yn rhoi ar ddeall bod rhaid i amgylcheddau gweithio fod yn rhydd rhag perygl ac y bydd NHS Cymru'n datblygu dull gweithredu rhagweithiol er mwyn delio â thrais ac ymosodedd.

Un amcan allweddol ar gyfer 2000-01 fydd data llinell sylfaen a sefydlir gan ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd ar amlder trais ac ymosodedd yn erbyn staff yn NHS Cymru.

**Effeithiau'r Ffliw ar yr NHS**

**C27 Dafydd Wigley:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad byr ar gynnydd y cynlluniau i atal y ffliw rhag effeithio'n ormodol ar yr NHS yn ystod y gaeaf nesaf? (OAQ5919)

**Jane Hutt:** Mae'r tasglu pwysau argyfwng—yr is-grŵp polisïau a rhaglen imiwneiddio—yn gweithio ar hyn o bryd ar argymhellion er mwyn lleihau'r derbyniadau i ysbytai o gleifion bregus sydd mewn mwy o berygl oherwydd afiechyd cronig a henaint, ac i ddynodi'r dulliau gorau o gyflenwi mesurau amddiffynnol, yn enwedig rhaglen imiwneiddio rhag y ffliw. Mae'r gr^wp yn datblygu pecyn cynhwysfawr ac iddo'r nod o atal pwysau gaeaf ar yr NHS a achosir gan y ffliw.

Mae'r gr^wp hwn i fod i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 5 Gorffennaf 2000, pan wneir penderfyniad ar y mesurau i ymdrin â phwysau gaeaf ar y gwasanaeth iechyd yn y gaeaf sydd i ddod.

**Uned Arennau Ysbyty Athrofaol Cymru**

**C28 William Graham:** A wnaiff Jane Hutt roi adroddiad am yr uned arennau yn Ysbyty Athrofaol Cymru? (OAQ5917)

**Jane Hutt:** Mae Ysbyty Athrofaol Cymru'n ymgymryd â dialysis arennol a llawdriniaeth arennol gyffredinol ar gyfer cleifion o Gaerdydd a Bro Morgannwg. Mae hefyd yn ymgymryd â thrawsblannu arennau ar gyfer cleifion o ganolbarth, de a gorllewin Cymru. Yr wyf yn ymwybodol bod ymddiswyddiad dau lawfeddyg ymgynghorol yn ddiweddar er mwyn ymgymryd â phenodiadau uchel eu bri mewn canolfannau arennol yn Lloegr wedi effeithio ar y gwasanaethau hynny.

Yr wyf yn falch o adrodd, fodd bynnag, fod Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro, ar ôl ymgyrch recriwtio egnïol ac eang gan yr ymddiriedolaeth, wedi penodi dau lawfeddyg ymgynghorol arennol newydd yn ddiweddar a chanddynt enw da a hanes gyrfa profedig. Mae'r rhain i gymryd lle'r llawfeddygon a ymddiswyddodd, a arweiniodd at fynegi pryderon ynghylch hyfywedd tymor hir y gwasanaethau yn yr Ysbyty Athrofaol. Mae'r llawfeddygon newydd i fod i ymgymryd â'u swyddi mor fuan â phosibl yr haf yma.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gweithio'n agos â'r ymddiriedolaeth er mwyn diogelu ei gwasanaethau a hefyd, ar ein cais, cynhaliodd y Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (sydd yn comisiynu gwasanaethau trawsblannu arennau ar ran yr awdurdodau iechyd) ei adolygiad arfaethedig o'r gwasanaeth hwnnw yng Nghymru yn gynharach. Cylch gorchwyl yr adolygiad oedd ystyried, ymysg pethau eraill, y cyfleusterau ar gyfer trawsblannu arennau yn yr Ysbyty Athrofaol, cyfluniad y gwasanaeth hwnnw, ei lwyddiant, ei ansawdd ac amseroedd aros. Rhoddwyd ystyriaeth i'r argymhellion terfynol a oedd yn codi o'r adolygiad gan y Comisiwn yng nghyfarfod ei fwrdd ar 15 Mehefin. Credaf y bydd gweithredu'r argymhellion hyn yn arwain at welliant yn ansawdd cyffredinol y gwasanaeth trawsblannu arennau yng Nghymru.

**Strategaeth Adnoddau Dynol (Gwyddonwyr Labordai Meddygol)**

**C29 Dafydd Wigley:** Sut mae'r strategaeth adnoddau dynol yn mynd i'r afael â'r materion recriwtio a chadw staff sydd yn effeithio ar wyddonwyr labordai meddygol? (OAQ5911)

**Jane Hutt:** Mae'r strategaeth adnoddau dynol i NHS Cymru, 'Darparu ar gyfer Cleifion', yn cydnabod ei bod yn fwy anodd mewn rhai meysydd penodol recriwtio pobl sydd â'r medrau a'r profiad iawn. Mae'n pwysleisio y dylai NHS Cymru geisio denu unigolion o sbectrwm cynrychioladol eang ac y dylai weithio gyda chyrff perthnasol i recriwtio'r rhai sydd yn newid gyrfa.

Un o amcanion 'Darparu ar gyfer Cleifion' fydd ymgymryd ag adolygiad o'r broses cynllunio gweithlu mewn ymgynghoriad â NHS Cymru a chyrff perthnasol eraill; a rhoi ar waith broses gytunedig ar gyfer cynllunio gweithlu integredig yn barod ar gyfer y cylch cynllunio nesaf. Y dyddiad targed ar gyfer cyflawni hyn yw Rhagfyr 2000. Amcan pellach fydd sefydlu a chyhoeddi targedau ar gyfer lleihau prinder staff, trosiant a chyfraddau cadw; ac adolygu hyblygrwydd cyflogaeth a threfniadau gloywi er mwyn galluogi staff cymwys i ddod yn ôl i weithio. Cyflawnir hyn erbyn Ebrill 2001.

Er na ddynodir grwpiau staff NHS Cymru unigol yn y ddogfen strategaeth, fel y cyhoeddais yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Mehefin pan drafodwyd 'Darparu ar gyfer Cleifion', byddwn yn gosod targedau ymestynnol ar gyfer recriwtio gwyddonwyr labordai meddygol ymysg eraill. At hynny, bwriedir cynnal ymgyrch recriwtio a chadw genedlaethol ar gyfer pob gr^wp staff. Ond ni allwn osod targedau penodol hyd nes y cawn wybod canlyniad yr adolygiad o gynllunio gweithlu.

Mae'r derbyniad ar gyfer gwyddonwyr labordai meddygol yn y flwyddyn academaidd bresennol yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd—yr unig ganolfan yng Nghymru ar gyfer hyfforddiant o'r fath—yn fwy o lawer na'r derbyniad am 1998-99. Y nifer a fydd yn dechrau ar eu hyfforddiant yn 2000-01 fydd y derbyniad mwyaf posibl.

### Perfformiad NHS Cymru

**C30 Jonathan Morgan:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar berfformiad NHS Cymru o'i gymharu â'r NHS yn Lloegr? (OAQ5860)

**Jane Hutt:** Mae cymharu perfformiad rhwng gwledydd yn gymhleth a byddai'n gofyn astudiaeth eang a fyddai'n ymdrin â'r gwahanol elfennau perfformiad, y gwahanol amgylchiadau yn y ddwy wlad a gwiriad bod mesurau perfformiad yn cael eu defnyddio'n gyson. Yn ddiweddar cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer NHS Cymru ynghyd â set o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol a fydd yn cyfrannu at wella perfformiad ac yn hwyluso cymhariaeth â'r NHS yn Lloegr.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant

### Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Rôl yn ETAP)

**C5 Cynog Dafis:** Beth yw rôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng ngrwpiau llinyn prosiect gweithredu ETAP? (OAQ5871)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst):** Prif bwrpas y grwpiau llinyn prosiect yw datblygu trefniadau ymarferol ar gyfer gweithredu diwygiadau strwythurol y cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant, gan gynnwys sefydlu'r Cyngor newydd dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru a Gyrfaoedd Cymru. Angen cyntaf trefniadau rheoli'r prosiect yw sicrhau bod y trefniadau cynllunio a phartneriaeth angenrheidiol ar waith er mwyn sefydlu'r Cyngor dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru a Gyrfaoedd Cymru erbyn 1 Ebrill 2001. Mae'r trawsnewid i'r trefniadau newydd yn golygu newid strwythurol mawr. Felly, canolbwyntiodd y grwpiau llinyn ar sicrhau bod unigolion â'r medrau a'r profiad perthnasol o'r prif gyrff a effeithir yn cymryd rhan yn y broses.

Bydd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg rôl allweddol i'w chwarae wrth gynghori'r Cyngor newydd ar ôl ei sefydlu ar gydosod a datblygu'r polisïau iaith Gymraeg y mae'n eu hetifeddu gan y cyrff a'i rhagflaenodd; ac ar bolisïau'r Cynulliad mewn perthynas â darpariaeth iaith Gymraeg yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae gan y cwmnïau gwasanaeth gyrfaoedd—a fydd gyda'i gilydd yn ffurfio gwasanaeth cyfarwyddyd Gyrfaoedd Cymru i bob oed—bolisïau iaith Gymraeg sydd ar waith eisoes y byddant yn ceisio eu cyfuno mewn cynllun ar y cyd i'w gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg maes o law.

### Lliniaru Baich Dyled Myfyrwyr

**C6 Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i liniaru baich dyled ymhlith myfyrwyr yng Nghymru? (OAQ5892)

**Tom Middlehurst:** Mae polisi ffioedd hyfforddi a chymorth myfyrwyr yn fater i'r Adran Addysg a Chyflogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr. Ni ddatganolwyd y swyddogaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol. Lle'r Adran Addysg a Chyflogaeth yw monitro effaith y trefniadau cymorth myfyrwyr newydd a gwneud newidiadau priodol er mwyn sicrhau y caiff myfyrwyr fynediad at gyllid digonol i'w galluogi i ymgymryd â'u hastudiaethau.

O’i ran ef, bydd y Cynulliad yn parhau i ddarparu cyllid mynediad i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru fel y gallant ddarparu cymorth dewisol, yn ôl eu doethineb, i fyfyrwyr sydd yn profi anawsterau ariannol wrth astudio neu a allai fod wedi methu ag ymgymryd â’u cwrs fel arall yn y lle cyntaf am resymau ariannol.

**Sefydlu Haen Ranbarthol i’r Cyngor Addysg a Hyfforddiant**

**C7 Brian Gibbons:** A wnaiff Tom Middlehurst roi adroddiad ar hynt y broses o sefydlu haen ranbarthol i’r Cyngor Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru? (OAQ5851)

**Tom Middlehurst:** Mae papur sydd yn egluro’r dull o ymdrin â datblygu pwyllgorau rhanbarthol y cyngor wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 a chan y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Mae’r papur wedi ei gwblhau ers hynny ac mae ar gael yn awr ar wefan y Cynulliad.

Mae sefydlu’r Cyngor newydd yn amodol ar droi’r Mesur Dysgu a Medrau sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn ddeddf.

**Adroddiad Cubie**

**C8 Peter Black:** Pa drafodaethau mae Tom Middlehurst wedi’u cael â’r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg mewn perthynas ag effaith adroddiad Cubie ar addysg uwch yng Nghymru? (OAQ5888)

**Tom Middlehurst:** Dim. Mae adroddiad Cubie yn adroddiad i Weithrediaeth yr Alban, ar ôl adolygiad o ffioedd hyfforddi a threfniadau cymorth ariannol i fyfyrwyr sydd yn preswylio fel arfer yn yr Alban sydd yn cymryd rhan mewn cyrsiau addysg bellach ac uwch yn rhywle yn y DU.

Mae’r cyfrifoldeb dros bolisi ar ffioedd hyfforddi a chymorth myfyrwyr yn gyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr yn perthyn i’r Adran Addysg a Chyflogaeth sydd yn arwain ar y mater hwn. Ni throsglwyddwyd y swyddogaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

O ran y trefniadau cymorth myfyrwyr i Gymru a Lloegr, mae’r Llywodraeth a’r Cynulliad o’r farn eu bod yn gweithio’n dda ac ni welant achos dros eu newid yn sylfaenol. Maent yn rhannu cost addysg uwch yn deg rhwng myfyrwyr, eu teuluoedd a threthdalwyr yn gyffredinol, ac yn darparu adnoddau holl bwysig ar gyfer buddsoddi mewn prifysgolion a cholegau. Mae hyfforddi’n parhau i fod am ddim i fyfyrwyr o deuluoedd llai cefnog ac mae’r holl fyfyrwyr yn cael budd o system decach o ad-dalu benthyciadau sydd yn cysylltu ad-daliadau’n uniongyrchol ag incwm.

**Corff Datblygu Addysg Cenedlaethol**

**C9 Jocelyn Davies:** Pa drafodaethau mae Tom Middlehurst wedi’u cael mewn perthynas â sefydlu corff datblygu addysg cenedlaethol? (OAQ5882)

**Tom Middlehurst:** Dim. Mae datblygu darpariaeth addysg yng Nghymru’n fater i’r Cynulliad Cenedlaethol ei hun gan weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol a chyrff statudol eraill. Cyflwynir ein gweledigaeth a’r camau sydd yn angenrheidiol er mwyn ei chyflawni yn ‘Gwellcymru.com’, cynllun strategol y Cynulliad.

**Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru**

**C10 Janet Ryder:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ar sut mae’r gwaith o gynhyrchu safonau ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru’n mynd rhagddo? (OAQ5906)

**Tom Middlehurst:** Yr wyf wedi comisiynu’r Athro Hywel Roberts o’r Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgell ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth i baratoi cynllun o safonau gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus, ar y cyd â gr^wp llywio i Gymru. Y Brifysgol a gynigiodd yn hael iawn ddarparu’r cymorth

hwn i'r Cynulliad. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda ac mae'r ymatebion oddi wrth awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus wedi bod yn gefnogol. Byddwn yn cylchredeg safonau drafft ar gyfer ymgynghori yn ystod yr haf. Cylchredir y set derfynol o safonau i awdurdodau lleol mewn pryd ar gyfer dechrau blwyddyn ariannol 2001-02.

**Grwpiau Llinyn Prosiect Gweithredu ETAP**

**C11 Janet Ryder:** Pa sefydliadau a chyrff addysg fu'n ymwneud â gwaith amryw grwpiau llinyn y prosiect gweithredu ETAP? (OAQ5883)

**Tom Middlehurst:** Cyhoeddwyd aelodaeth a chylchoedd gorchwyl y grwpiau llinyn ar wefan y Cynulliad, ynghyd â manylion pwyllgor llywio'r prosiect a bwrdd rheoli'r prosiect. Mae aelodaeth y grwpiau perthnasol yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau addysg lleol a'r sector addysg bellach. Mae swyddogion y Cynulliad hefyd yn cadw mewn cysylltiad agos â chynrychiolwyr o'r sector addysg ehangach.

Bydd trefniadau rheoli'r prosiect yn canolbwyntio'n gyntaf ar sicrhau bod y trefniadau cynllunio a phartneriaeth angenrheidiol ar waith er mwyn sefydlu'r Cyngor dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru a Gyrfaoedd Cymru erbyn 1 Ebrill 2001. Mae'r trawsnewid i'r trefniadau newydd yn golygu newid strwythurol mawr. Felly, canolbwyntiodd y grwpiau llinyn ar sicrhau bod unigolion â'r medrau a'r profiad perthnasol o'r prif gyrff a effeithir yn cymryd rhan yn y broses.

Bydd yr holl gyrff ac unigolion sydd â diddordeb yn nyfodol addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru yn gallu cadw mewn cysylltiad â datblygiadau drwy wefan y Cynulliad a chylchlythyr prosiect y cynllun datblygu addysg a hyfforddiant 'Ymlaen-Ahead'.

**Canolfannau Dysgu (Prifysgol i Ddiwydiant)**

**C12 Jane Davidson:** Sawl canolfan ddysgu wedi'u darparu drwy gyfrwng y Brifysgol i Ddiwydiant sydd gan Gymru ar hyn o bryd, a faint yn fwy a gynllunnir? (OAQ5850)

**Tom Middlehurst:** Ar 25 Mai 2000, cyhoeddodd Prifysgol i Ddiwydiant Cymru sefydlu 10 canolfan cyswllt dysgu/learn direct ar-lein ychwanegol yng Nghymru gan wneud cyfanswm o 14. Disgwylir y bydd o leiaf 50 canolfan ddysgu ar waith yng Nghymru erbyn diwedd Mawrth 2001.

**Gwella Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus**

**C13 Dafydd Wigley:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i hybu'r broses o wella gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ5904)

**Tom Middlehurst:** Mae gan lyfrgelloedd cyhoeddus rôl allweddol i'w chwarae wrth helpu i gyflawni ein hamcanion sydd wedi eu nodi yn 'Gwellcymru.com', yn enwedig drwy ddarparu mynediad sydd am ddim ac ar gael yn eang at wybodaeth a chefnogaeth ar gyfer dysgu gydol oes. Cymerais nifer o gamau i hybu gwelliant yn y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Drwy'r Gronfa Cyfleoedd Newydd darparasom £6.5 miliwn yn benodol er mwyn datblygu seilwaith rhwydwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu llyfrgelloedd cyhoeddus; bron £1 filiwn ar gyfer hyfforddi staff llyfrgelloedd cyhoeddus; a £50 miliwn (drwy'r DU) ar gyfer digidoli deunyddiau dysgu. Ein nod, lle y bo'n ymarferol, yw y bydd yr holl lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru ar lein ac yn gysylltiedig â'r Grid Dysgu Cenedlaethol erbyn diwedd 2002.

Gofynnais hefyd i'm corff ymgynghorol, y Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth (Cymru), sefydlu gr^wp gorchwyl i gydlynu a hyrwyddo cynigion TGCh Rhwydwaith y Bobl yng Nghymru. Yn ogystal â hynny, mae'r cyngor yn sefydlu gweithgor i ddynodi'r hyn y gall llyfrgelloedd ei wneud i ymladd anfantais gymdeithasol.

Y llynedd comisiynais yr Athro Hywel Roberts o'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgell ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth i baratoi cynllun o safonau gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus, ar y cyd â gr^wp llywio i Gymru. Y Brifysgol a gynigiodd yn hael iawn ddarparu'r cymorth hwn i'r Cynulliad. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda a chylchredir set derfynol o safonau i awdurdodau lleol mewn pryd ar gyfer dechrau blwyddyn ariannol 2001-02. Mae'r Athro Roberts hefyd yn paratoi adroddiad ar ryngfenthyca a rhannu adnoddau rhwng llyfrgelloedd yng Nghymru.

**Cynlluniau Menter Cymunedol**

**C14 Janice Gregory:** A wnaiff Tom Middlehurst ystyried ailgyflwyno'r cynlluniau menter cymunedol? (OAQ5903)

**Tom Middlehurst:** Mae amrediad eang o brosiectau menter cymunedol yn debygol o fod yn gymwys i dderbyn arian oddi wrth y gronfa adfywio lleol newydd a byddant hefyd yn gallu cael mynediad at gronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

Mae cronfa benthyciadau bach Awdurdod Datblygu Cymru yn gallu rhoi benthyciadau i fentrau cymunedol. Mae'r WDA hefyd yn paratoi cynigion ar gyfer cronfa benodol ar gyfer busnesau cymunedol fel rhan o Gyllid Cymru a gaiff eu hystyried gan y Cynulliad.

**Lwfansau Cynhaliaeth Addysg**

**C15 Jenny Randerson:** A oes gan Tom Middlehurst unrhyw gynlluniau i gyflwyno lwfansau cynhaliaeth addysg yng Nghymru? (OAQ5867)

**Tom Middlehurst:** Ar ôl cwblhau'r cynlluniau peilot yr ymgymerir â hwy ar hyn o bryd yn Lloegr, bydd cyfle gan y Cynulliad i ystyried yr wybodaeth a gafwyd a phenderfynu a ddylid cyflwyno lwfansau cynhaliaeth addysg yng Nghymru.

**Elitiaeth ym Mhrifysgolion Cymru**

**C16 Jonathan Morgan:** A wnaiff Tom Middleurst ddatganiad ar elitiaeth ym mhrifysgolion Cymru? (OAQ5857)

**Tom Middlehurst:** Mae'r holl sefydliadau addysg uwch yn gyrff ymreolus annibynnol a chanddynt yr unig gyfrifoldeb dros benderfynu eu materion gweinyddol ac academaidd beunyddiol gan gynnwys polisïau derbyn. Nid oes gan y Cynulliad bwerau i ymyrryd â phenderfyniadau sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar y materion hyn.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad ar ddangosyddion perfformiad mewn addysg uwch, a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 1999 gan gynghorau cyllido addysg uwch y DU, yn dangos bod 88 y cant o fyfyrwyr gradd newydd ifanc mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, yn 1997-98, wedi dod o ysgolion neu golegau gwladol o'i gymharu â 81 y cant yn Lloegr ac yn yr Alban ac mae hyn yn uwch o lawer na chyfartaledd y DU o 82 y cant.

**Cyllido'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Dyfodol**

**C17 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau mae Tom Middlehurst wedi eu cael gyda threfnydd yr Eisteddfod Genedlaethol ynglŷn â chyllido'r digwyddiad yn y dyfodol? (OAQ5889)

**Tom Middlehurst:** Ni chyfarfûm yn ffurfiol â threfnwyr yr Eisteddfod Genedlaethol, er imi drafod y sefyllfa â hwy'n anffurfiol yn ystod fy ymweliad â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ynys Môn. Hefyd rhoddwyd tystiolaeth gan gynrychiolwyr o'r Eisteddfod Genedlaethol i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, yr wyf yn aelod ohono, yn Chwefror. Mae'r cyfrifoldeb dros ariannu'r Eisteddfod Genedlaethol yn perthyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

**Colegau Cymru (Datblygu Gweithlu Modern)**

**C18 Peter Rogers:** Beth yw cynlluniau Tom Middlehurst ar gyfer annog colegau Cymru i gynnig cyrsiau sydd yn berthnasol i ddatblygu gweithlu modern medrus ymhellach? (OAQ5878)

**Tom Middlehurst:** Mae'r cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant, a gadarnhawyd gan y Cynulliad ar 1 Chwefror, yn rhoi ar ddeall bod rhaid i gyflogwyr fod â chysylltiad agos â gweithio gyda darparwyr gwasanaethau er mwyn asesu anghenion addysg a medrau ôl-16, a sicrhau eu bod wedi eu cyflawni. Wrth inni ddatblygu ein cynllun gweithredu, byddwn yn sicrhau bod y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant newydd yn gweithio'n agos iawn â cholegau a darparwyr eraill er mwyn darparu'r medrau y mae ar gyflogwyr eu hangen. Bydd disgwyl i'r Cyngor, fel ei ragflaenydd, gydweithio â'r rhai sydd yn gyfrifol am Gyswllt Busnes, cynlluniau cwmni dysgu a phartneriaethau addysg busnes er mwyn sicrhau yr elwir yn llawn ar fentrau o'r fath o ran gwella cysylltiadau rhwng colegau a chyflogwyr.

**Young Voice/Llais Ifanc (Cynrychioli Rhanbarthau Cymru)**

**C19 Mick Bates:** Sut wnaiff Tom Middlehurst sicrhau bod aelodau Young Voice/Llais Ifanc yn y dyfodol yn cynrychioli pob rhanbarth yng Nghymru? (OAQ5876)

**Tom Middlehurst:** Nid oes gan Young Voice/Llais Ifanc aelodaeth ffurfiol fel y cyfryw. Er ei bod yn ei chyfnod arbrofol o hyd i raddau helaeth, dyfeisiwyd y fenter fel ei bod yn agored i'r holl bobl ifanc yng Nghymru. Os ydych, wrth y gair 'aelodaeth', yn cyfeirio at y rhai sydd yn cymryd rhan yng nghynhadledd Chwalu Rhwystrau Young Voice/Llais Ifanc ar 7 Gorffennaf, gwahoddwyd yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i enwebu o leiaf ddau o bobl ifanc o'u hardal. Bydd y gynhadledd hefyd yn cysylltu, yn fyw, â phobl ifanc o bob rhan o Gymru drwy ganolfannau telegynadledda rhanbarthol a'r rhyngrwyd.

**Hyrwyddo Chwaraeon ac Athletau Menywod**

**C20 Lorraine Barrett:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ar faint o arian sydd yn cael ei wario yn flynyddol yng Nghymru i hyrwyddo chwaraeon ac athletau ar gyfer menywod? (OAQ5894)

**Tom Middlehurst:** Mae cyfranogiad gan fenywod mewn chwaraeon yn flaenoriaeth uchel yn holl raglenni'r Cyngor Chwaraeon. Cyflwynir manylion cynlluniau Cyngor Chwaraeon Cymru i hybu cyfleoedd chwaraeon i bawb yn ei strategaeth gyhoeddedig 'Strategaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru'.

Gwaetha'r modd, nid yw'n ymarferol allosod ffigur am amser a dreulir yn gyfan gwbl ar hybu chwaraeon ac athletau i fenywod yng Nghymru—mae'n llinyn hanfodol yn holl weithgareddau'r Cyngor Chwaraeon.

Mae gan Gyngor Chwaraeon Cymru gynllun gweithredu 'benywod a genethod' hefyd sydd yn cynnwys pob un o feysydd gwaith y Cyngor, gan gynnwys: yr hyn i'w wneud er mwyn cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon, gweithio gyda chyrff llywodraethol er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn pwysleisio cyfranogi gan fenywod, Campau'r Ddraig (sydd â'r nod o hybu amlygrwydd chwaraeon ar gyfer plant o oedran ysgol gynradd) a'r Gist Gymunedol (sydd yn rhoi grantiau loteri bach i glybiau ar lefel gymunedol leol).

Adlewyrchir y pwys a roddir ar gynyddu cyfranogiad benywod mewn chwaraeon yn nharged Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Cynulliad (drwy 'Gwellcymru.com') o haneru'r bwlch rhwng cyfranogiad dynion a benywod mewn chwaraeon erbyn 2005.

**Llysgenhadon yn y Gymuned**

**C21 Huw Lewis:** A yw Tom Middlehurst wedi cael unrhyw drafodaethau gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ynglŷn â chyflwyno llysgenhadon yn y gymuned ar gyfer rhoi cyfle i fwy o bobl fanteisio ar addysg uwch mewn cymunedau difreintiedig? (OAQ5899)

**Tom Middlehurst:** Nac ydwyf. Fodd bynnag, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi sefydlu amrediad o raglenni a mentrau er mwyn cynorthwyo sefydliadau wrth iddynt ymateb i anghenion cymorth addysgol y myfyrwyr annhraddodiadol hyn. Mae'r Cynulliad wedi gofyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru barhau i weithio gyda sefydliadau i dargedu ardaloedd er mwyn hybu cyfranogiad mewn addysg uwch gan fyfyrwyr annhraddodiadol, i ymdrechu i recriwtio myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir ac i sicrhau y cyflawnir anghenion bugeiliol y myfyrwyr hyn. Yn benodol, mae cysylltiadau parhaol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru rhwng sefydliadau addysg uwch a menter ehangu mynediad yr ysgolion yn ceisio datblygu trefniadau compact a chysylltiadau eraill rhwng sefydliadau addysg uwch ac ysgolion er mwyn symbylu disgyblion i aros yn yr ysgol a mynd ymlaen i addysg uwch.

### Athrawon dan Hyfforddiant

**C22 David Davies:** Pa gamau mae Tom Middlehurst yn eu cymryd er mwyn annog mwy o bobl hyfforddi i fod yn athrawon? (OAQ5886)

**Tom Middlehurst:** Ar 12 Ebrill cyhoeddodd Rosemary Butler fanylion grantiau hyfforddi a dysgu a gyflwynir yng Nghymru o Fedi 2000 fel rhan o amrediad o fesurau i hybu recriwtio athrawon. Mae'r grantiau hyn yn elfennau ar y cyd sydd yn ceisio annog mwy o raddedigion a rhai gwell i fynd i hyfforddiant athrawon dechreuol uwchradd ôl-raddedig ac ymlaen wedyn i ddysgu. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn cefnogi ymdrechion ehangach gan yr Asiantaeth Hyfforddi Athrawon i hybu dysgu fel gyrfa.

### Polisïau Iaith

**C23 David Davies:** A wnaiff Tom Middlhurst ddatganiad ynglŷn â'i bolisïau iaith? (OAQ5875)

**Tom Middlehurst:** Bydd y Cynulliad yn parhau i gefnogi'r iaith Gymraeg er mwyn cyflawni'r nod a gyflwynir yn 'Gwellcymru.com', y bydd y gyfran o'r boblogaeth sydd yn medru'r Gymraeg wedi cynyddu erbyn 2010, gyda'r cynnydd mwyaf ymysg pobl ifanc. Edrychaf ymlaen at ymhelaethu ar ein polisïau iaith Gymraeg ar 28 Mehefin pan gynhelir dadl ar yr iaith yn y Cyfarfod Llawn.

### Effaith Ffioedd Hyfforddi ar Fyfyrwyr yng Nghymru

**C24 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau mae Tom Middlehurst wedi eu cael ynglŷn ag effaith ffioedd hyfforddi ar fyfyrwyr yng Nghymru? (OAQ5896)

**Tom Middlehurst:** Fel y gwyddoch, mae cyfrifoldeb dros bolisi ffioedd hyfforddi a chymorth myfyrwyr yn perthyn i'r Adran Addysg a Chyflogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr. Ni ddatganolwyd y swyddogaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, cododd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru fater cymorth myfyrwyr, ymysg pynciau eraill, pan gyfarfûm ag ef y llynedd.

O'i ran ef, bydd y Cynulliad yn parhau i ddarparu cyllid mynediad i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru fel y gallant ddarparu cymorth dewisol, yn ôl eu doethineb, i fyfyrwyr sydd yn profi anawsterau ariannol wrth astudio neu a allai fod wedi methu ag ymgymryd â'u cwrs fel arall yn y lle cyntaf am resymau ariannol.

### Datblygiad Grwpiau Llinyn Prosiect Gweithredu ETAP

**C25 Pauline Jarman:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ar ddatblygiad grwpiau llinyn prosiect gweithredu ETAP? (OAQ5881)

**Tom Middlehurst:** Cyhoeddwyd aelodaeth a chylchoedd gorchwyl y grwpiau llinyn ar wefan y Cynulliad, ynghyd â manylion pwyllgor llywio'r prosiect a bwrdd rheoli'r prosiect. Mae'r chwe gr^wp llinyn yn ymwneud ar hyn o bryd â datblygu'r strwythurau a'r systemau sydd yn angenrheidiol er mwyn sefydlu'r Cyngor dros Addysg a Hyfforddiant newydd i Gymru a Gyrfaoedd Cymru erbyn 1 Ebrill 2000.

**Y Gronfa Cyfleoedd Newydd (Prosiectau Amcan 1)**

**C26 Nick Bourne:** A wnaiff Tom Middlehurst wneud sylw ar unrhyw gynlluniau i ddefnyddio arian y Gronfa Cyfleoedd Newydd fel arian punt am bunt ar gyfer prosiectau Amcan 1? (OAQ5885)

**Tom Middlehurst:** Gall arian loteri fod ar gael i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau cronfeydd strwythurol, yn yr un modd ag y bu arian Ewropeaidd ar gael yn y gorffennol fel cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau a arweinir gan y loteri.

**ETAP (Sefydliadau Addysg)**

**C27 Cynog Dafis:** Pa rôl y mae sefydliadau addysg Cymru wedi ei chwarae ym mhrosiect gweithredu ETAP? (OAQ5870)

**Tom Middlehurst:** Cyhoeddwyd aelodaeth a chylchoedd gorchwyl y grwpiau llinyn ar wefan y Cynulliad, ynghyd â manylion pwyllgor llywio'r prosiect a bwrdd rheoli'r prosiect. Mae aelodaeth y grwpiau perthnasol yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau addysg lleol a'r sector addysg bellach. Mae swyddogion y Cynulliad hefyd yn cadw mewn cysylltiad agos â chynrychiolwyr o'r sector addysg ehangach.

Bydd trefniadau rheoli'r prosiect yn canolbwyntio'n gyntaf ar sicrhau bod y trefniadau cynllunio a phartneriaeth angenrheidiol ar waith er mwyn sefydlu'r Cyngor dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru a Gyrfaoedd Cymru erbyn 1 Ebrill 2001. Mae'r trawsnewid i'r trefniadau newydd yn golygu newid strwythurol mawr. Felly, canolbwyntiodd y grwpiau llinyn ar sicrhau bod unigolion â'r medrau a'r profiad perthnasol o'r prif gyrff a effeithir yn cymryd rhan yn y broses.

Bydd yr holl gyrff ac unigolion sydd â diddordeb yn nyfodol addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru yn gallu cadw mewn cysylltiad â datblygiadau drwy wefan y Cynulliad a chylchlythyr prosiect y cynllun datblygu addysg a hyfforddiant 'Ymlaen-Ahead'.

**Prifysgolion Grŵp Russell**

**C28 Jenny Randerson:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ar y cynnig oddi wrth Brifysgolion Grŵp Russell eu bod angen incwm o hyd at £6,000 yn ychwanegol oddi wrth ffïoedd hyfforddi er mwyn adennill arian a gollwyd? (OAQ5866)

**Tom Middlehurst:** Rhoddwyd ar ddeall gan y Llywodraeth a'r Cynulliad nad oes rhan bellach i ffioedd ychwanegol mewn cynlluniau ariannu addysg uwch. Ni ddylai swm cyfraniad y myfyriwr at y ffi hyfforddi fod yn fwy na'r swm rhagnodedig a nodwyd o dan y Rheoliadau Cymorth Myfyrwyr, sydd yn £1,050 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2000-01.

Wrth ddarparu'r grant ar gyfer ariannu addysg uwch yng Nghymru, gosodir amod ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i reoli ffioedd o'r fath. Gallai unrhyw sefydliad sydd yn codi ffioedd ychwanegol gael ei gosbi'n ariannol.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw fwriad gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i godi ffioedd ychwanegol.

**Trafodaethau gydag ACCAC ynghylch Asesiadau**

**C29 Dafydd Wigley:** Pa drafodaethau mae Tom Middlehurst wedi eu cael gydag ACCAC ynglŷn ag asesiadau yng Nghymru? (OAQ5874)

**Trafod Datblygiadau'r Fargen Newydd**

**C30 Lorraine Barrett:** A all Tom Middlehurst wneud datganiad ar y cyfarfod chwe misol cyntaf gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i drafod datblygiad y Fargen Newydd? (OAQ5893)

**Tom Middlehurst:** Yr oedd y cyfarfod cyntaf hwn yn un buddiol a llawn gwybodaeth. Trafodasom y cynnydd a wnaethpwyd gan y Fargen Newydd, gan nodi bod targed y DU o gael 250,000 o bobl ifanc mewn gwaith bron â'i gyflawni ymhell oddi mewn i oes y Senedd hon.

Amlinellodd Syr Peter Davis, cadeirydd tasglu'r DU, syniadau ar gyfer datblygu dull gweithredu'r Fargen Newydd ymhellach, ac achubais ar y cyfle i godi mater pwysig ymgynghori a chyfathrebu rhwng Whitehall a'r Cynulliad, gan danlinellu'r angen i hyn aros yn flaenoriaeth uchel.